# DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH

143 MAWRTH 1988


# Y DATHLU MAWR

## Cyfarchiad Arch-Esgob Cymru i bobl Caerdydd

Mae 1988 yn flwyddyn rhyfedd o ddathliadau. Bydd y Saeson yn dathlu 400 mlwyddiant concro'r Armada, ond fe fyddwn ni y Cymry yn dathlu pedwar can mlwyddiant cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg gan yr Esgob William Morgan. Prin bod yna lyfr arall sydd wedi dylanwadu yn fwy ar ein diwylliant, ein ffordd o feddwl ac o fyw. Yn sicr does yna yr un llyfr arall sy wedi cyfoethogi ein bywyd gymaint. Cael y Beibl yn y Gymraeg oedd y rhodd fwyaf a dderbyniodd Cymru erioed.

Adeiladu ar seiliau a osodwyd gan eraill yw ein hanes ni i gyd. Cyn y gallai yr Esgob William Morgan gyflawni ei waith gorchestol, roedd eraill fel William Salesbury a'r Esgob Richard Davies wedi bod yn braenaru'r tir. Er hynny i gyd ni all neb ohonom amgyffred cymaint yr orchest. Pan gyfieithwyd y Beibl i'r Saesneg yn 1568 fe gymerodd naw mlynedd o waith i naw esgob a nifer o ysgolheigion eraill. Cyflawnodd yr Esgob William Morgan ei waith ar ei ben ei hun mewn deng mlynedd. Mae'r peth bron yn anhygoel.

Dagrau pethau y dyddiau hyn yw bod y Beibl wedi colli ei afael ar galon Cymru. Mae trysor William Morgan wedi mynd yn lyfr dieithr i ormod ohonom. Byddai yn fendigedig pe bai'r dathlu eleni yn dod yn gyfrwng adfywiad ysbrydol a Chymru yn ail ddarganfod ei henaid. Ein gweddi yw y bydd i gyfieithiad newydd 1988 gael yr un derbyniad ag a gafodd cyfieithiad Esgob William Morgan yn 1568 fel y daw y Beibl eto yn lusern i'n traed ac yn lewyrch i'n llwybr.

Yn sicr mae'r Esgob William Morgan yn un o gymwynaswyr mwyaf ein cenedl ac yng ngeiriau Gwenallt -

Canmolwn ef am ei ddycnwch, ei
 ddewrder, ei santeiddrwydd
A'i gymorth i gadw'r genedl a'r
 iaith lenyddol yn fyw
Gan roddi arni yr urddas ac
 iddi'r anrhydedd uchaf
Wrth ei throi yn o dafodieithoedd datguddiad Duw.

Y cymhelliad mwyaf oedd ei ofid am gyflwr anwybodus ac annuwiol gwerin Cymru. Gwelai na ellid ennill Cymru i Grist heb Feibl yn y Gymraeg. Nid oedd unrhyw ffordd arall o wneud y Gair yn hysbys. Trwy ei ymdrech fe baratodd y ffordd i Gruffydd Jones a'i Ysgolion Cychynol a'r Diwygiad Methodistaidd a daeth yr Efengyl yn rym achubol yng Nghymru.

Trwy roi Gair Duw mewn gwisg defnyddiol ac urddasol fe achubodd yr iaith Gymraeg. Dyma glywid o'r pulpud a'r ddarllenfa. Cyfoethogwyd bywyd ysbrydol Cymru a rhoddwyd iddi ddiwylliant y Beibl. Yn ôl yr Athro G.J.Williams, daeth y werin yn geidwaid yr iaith a dyma a'i gwnaeth yn un o werinoedd mwyaf diwylliedig Ewrop.



## . . . a dathlu arall

Enillwyr 'Ysgoloriaeth', cwis ysgolion HTV i S4C eleni yw Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf Caerdydd. Eu gwobr oedd cyfrifiadur gwerth £1,000 i'r ysgol. Y pedwar disgybl gipiodd y wobr i Glantaf oedd (chwith i'r dde) Paul Jones, Rhian Mari Thomas, Bethan Griffiths a Geraint Williams. Gyda nhw yn y llun mae eu prifathro, Mr. Malcolm Thomas.

Llun trwy garedigrwydd HTV

# Russell a'r Byd



Llun trwy garedigrwydd HTV

Tra'n gorwedd ar wely caled ym mhencadlys y fyddin Afghan yn Khost dyma un o'r criw yn troi ataf a gofyn: 'Wyt ti'n cofio rhywun yn dweud wrthon ni rhyw wythnos yn ôl na fydden ni'n agos at ardal beryglus y daith hon?' Siglodd y ffenest wrth i ergyd artileri arall gael ei hanelu at gysgodion mynyddoedd Pakistan. 'Wedes i 'na do fe?' 'Hmmmmm...' oedd ateb unsain y criw.

I'r rheiny falle sy ddim yn rhan o'r byd newyddiadurol mae'n siwr i bob sgŵp' ymddangos yn beth lwcus: digwydd bod yn y lle iawn ar yr adeg iawn! I raddau mae hynny'n wir. Yr hyn nad yw pobl yn ei sylweddoli yw gymaint o waith paratoi, ymchwilio a dyfalu sy'n cael ei wneud er mwyn sicrhau ein bod ni yn y lle iawn ar yr adeg iawn!

Roedd chwe mis o lythyru dyfal, o ddadlau'n hachos dros y ffôn, a mynychu cyfarfodydd dirifedi wedi dwyn ffrwyth o'r diwedd - roedden ni am gael ein visas er mwyn cael mynediad i'r wlad. Roedd sylwebydd amddiffyn yr <u>Observer</u> druan wedi gorfod disgwyl am ddeg mis cyn cael visa! Wedi cyrraedd Afghanistan roedd y dasg o geisio darbwyllo ceidwaid y llywodraeth yn cychwyn...eu darbwyllo, hynny yw, ein bod ni yno er mwyn dangos y 'gwirionedd' i weddill y byd. Bu'r 'ceidwaid' yn gwmni i ni drwy'r adeg ac roedden nhw wedi clywed am y 'gwirionedd' honedig yma o'r blaen. Yn wir dyma yw sylfaen eu hamheuon am newyddiadurwyr y gorllewin - sut mae'r 'gwirionedd' yma'n cael ei ŵyrdroi.

Roedd derbyn caniatâd i fynd i Kost, fel y newyddiadurwr cyntaf, yn brawf o waith caled sawl person - a gobeithio i'r ffydd a roddwyd ynddom ni gan lywodraeth Afghanistan gael ei hadlewyrchu yn y rhaglenni.

Mewn sefyllfa fel hon, wrth gwrs, mae'n anodd peidio â chael eich twyllo gan ddadleuon eich gwestywyr. Yn ffodus i ni doedd gan bobl Afghanistan fawr ddim i'w guddio, a chan fod 'na gymaint o bropaganda wedi'i ddarlledu yn y gorffennol o blaid y gwrthryfelwyr gwaith cymharol rwydd i ni oedd dangos y 'gwirionedd'. Diolch i'r drefn am fodolaeth S4C dd'wedaf i, - sydd wedi ein galluogi i weld ochr arall y geiniog mewn sawl gwlad ar sawl achlysur. Gyda'r rhyddid yma mae dyn yn cael y cyfle i brofi hanfodion newyddiaduraeth - di-duedd, gobeithio - ar lefel ryngwladol.

Braf oedd clywed 'sêr' teledu'r rhwydwaith yn Llundain yn gofyn, 'But how did <u>you</u> get there?'

Roedd yr ateb yn syml, yn doedd? 'Lwc'!!


# celtic asset management ltd.

Delwyr Trwyddedig mewn gwarannau

TY PENHILL, HEOL PENHILL, CAERDYDD, CF1 9UP.
Ffon: 394021. Facs: 383803

Gwasanaeth Newydd: Y MEDDYG ARIAN.

A ydych yn gofidio am eich trefniadau ariannol, buddsoddiadau ac ati, yn enwedig yn sgil y cwympiadau yn y marchnadau stoc?

A ydych eisiau barn a chyngor diduedd ac annibynnol?

R'ydym yn arbenigwyr yn y maes ac yn cynnig gwasanaeth ymgynghorol newydd, am gost pendant - a fydd ddim yn fwy na £75 heb T.A.W. nac yn llai na £25 heb T.A.W.

Y cam cyntaf? Cysylltwch a Peter Cardinali neu Dafydd Hampson-Jones am fwy o wybodaeth.


CYNGOR Y CELFYDDYDAU

CYMORTH I AWDURON

Heddiw cyhoeddodd Cyngor y Celfyddydau fod y swm o £50,000 wedi ei ddyrannu o'r Gronfa Ddatblygu yn gymorth uniongyrchol i awduron. Neulltuir £40,000 ar gyfer Ysgoloriaethau - sef cynllun i ryddhau llenorion am gyfnod o'u gwaith neu eu hamgylchiadau beunyddiol a'u galluogi i ymgymryd a gwaith creadigol newydd.

Defnyddir y £10,000 sy'n weddill o'r cyfanswm ar gyfer Preswylfeydd. Yn ol y cynllun hwn, a weinyddir ar y cyd a thair Cymdeithas Ranbarthol y Celfyddydau, rhyddheir awduron am gyfnod penodol i weithio o fewn sefydliad cyhoeddus.

Er 1968 derbyniodd dros 115 o awduron ysgoloriaethau gan Cyngor y Celfyddydau ac o ganlyniad ysgrifennwyd nifer dda o weithiau llenyddol pwysig. Oherwydd prinder arian, fodd bynnag, gorfu i'r Cyngor atal ei nawdd er 1984 ac ymfalchia fod y cynlluniau hyn i'w hadfer yn 1988/89 gan yr ystyrir hwy yn rhan bwysig o gyfrifoldeb y Cyngor i gynorthwyo'r artist unigol i ymarfer ei grefft a galluogi'r llenor i fyw am gyfnod fel awdur proffesiynol.

Y mae'r Cyngor, fodd bynnag, wedi llwyddo i barhau yn ddifwlch a dull cwbl wahanol o noddi awduron unigol trwy ddyfarnu yn flynyddol Wobrau Llenyddol i lyfrau o ansawdd arbennig a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol.

'Prynu amser' llenor yw diben yr Ysgoloriaethau a thrwy hyrwyddo y cynllun hwn mae'r Cyngor yn ymateb i anghenion awduron ac yn ceisio sicrhau rhagor o lyfrau o natur lenyddol, yn enwedig nofelau.

Hysbysebir yr Ysgoloriaethau wedi i'r Pwyllgor Llenyddiaeth gwblhau manylion y cynllun.

Ceir rhagor o wybodaeth trwy gysylltu a Nan Griffiths, yr Adran Lenyddiaeth.


**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

# LYNN JONES

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**

# LLYFRAU

BRO'R GLO BRO RHUGL EI HAWEN

Canu'r Pwll a'r Pulpud, portread o'r diwylliant barddol Cymraeg yn Nyffryn Aman. Huw Walters. Cyhoeddiadau Barddas 1987. tt. 397. Pris £11.95

Go brin y gŵyr neb fwy am Ddyffryn Aman a'i gyffiniau na'r Dr Huw Walters o'r Llyfrgell Genedlaethol. Datgelodd beth o'r wybodaeth honno mewn erthygl a llyfr cyn hyn ond wele gyhoeddi nawr ei astudiaeth drylwyr o weithgarwch llenyddol yr ardal, neu o leiaf o ganu beirdd y fro ar hyd y canrifoedd. Canolbwyntiodd, bid siwr, ar weithgarwch byrlymus y ganrif ddiwethaf pan ddylifodd y miloedd i'r gweithfeydd alcan ac i'r pyllau glo carreg ond wrth ystyried beirdd megis Watcyn Wyn a Gwydderig rhaid oedd arno astudio'r gymdeithas yr oeddynt yn rhan ohoni ac yn lladmeryddion drosti. Wrth adrodd hanes y gymdeithas honno a thrafod yr elfennau a'i ffurfiodd rhoes inni gyfrol orchestol a eill fod yn batrwm i astudiaeth o hanes gwerin cymoedd eraill y De a pheri inni oll edrych yn llai dirmygus ar gynheiliaid ein diwylliant yn ystod y ganrif ddiwethaf.

LLEF UN YN LLEFAIN

Llef Pennar Davies. Cyhoeddiadau Barddas 1987. tt68. Pris £3.95

Yr un llun o Nadolig Crist a geir ar siaced lwch y llyfr hwn ag a geir ar glawr Dei Gratia, y casgliad diweddar o gerddi Rhydwen Williams, un arall o feirdd Cylch Cadwgan. Ac mae'r llun yn un cwbl briodol oblegid mae'r Nasaread llwyd ei wedd yn cerdded ar draws tudalennau'r gyfrol hon fel y gwnaeth yn holl lyfrau blaenorol y Prifathro Emeritws mwyn. Cerddi myfyrdodus sydd yma, a'r rheiny yn llawn cyfoeth cyfeiriadaeth o'r hen fyd clasurol ac o'r hen chwedlau Cymraeg. Cerddi yn y wers rydd ydynt gan mwyaf ond ceir hefyd deyrnged fer i Saunders Lewis ar fydr ac odl, un soned gabol a nifer o gerddi diddorol ar ffurf yr haicw a'r tanca Siapaneaidd. Afraid dweud efallai gymaint yw'r pleser a'r mwynhad a geir o ddarllen y cerddi oll. Diolch amdanynt.

WELE AWEN ELIAS

Cerddi Elias Davies Cyhoeddiadau Barddas 1987 tt72, Pris £2.95

Mae gan Elias Davies ryw gymaint o gysylltiad â Chaerdydd oblegid bu ei briod Esmę (Thomas bryd hynny) yn byw yma am flynyddoedd gan fynychu Eglwys Dewi Sant ond brodor o odre Ceredigion ydyw ef ac fel cynifer o'r parthau hynny datblygodd (er yn ddiweddar, efallai) yn gynganeddwr praff a mynych ei wobrau. Ef, fe gofir, a ddaeth yn gyntaf ac yn ail ar yr englyn yn Eisteddfod Genedlaethol Llagefni a rhoes y fuddugoliaeth honno foddhad mawr i'r beirdd oll oherwydd ni cheir personoliaeth fwy hynaws a bonheddig yn eu plith. Er iddo gyrraedd oed yr addewid bellach, hon yw ei unig gyfrol hyd yma, ac wrth ddiolch iddo am hel y cerddi graenus hyn at ei gilydd, yn emynau, sonedau, telynegion ac englynion, rhaid yw lleisio'r gobaith y daw casgliad arall i'r golwg cyn bo hir iawn.

CANU CREFYDDOL CENEDL

Dechrau Canu Rhai emynau mawr a'u cefndir. E Wyn James. Gwasg Efengylaidd Cymru 1987. tt90. Ni nodir pris.

Da yw gallu croesawu E Wyn James a'i deulu i'r Eglwys Newydd i fyw. Bu ef yn gofalu am gyhoeddiadau Mudiad Efengylaidd Cymru ac am lyfrgell y Mudiad ym Mhen-y-bont ar Ogwr ers deng mlynedd a mwy a bu ei gyfraniadau dros y blynyddoedd ym maes hanes a llenyddiaeth grefyddol Cymru yn rhai gwerthfawr tu hwnt. Ef yw golygydd Bwletin Cymdeithas Emynau Cymru ond nid llyfr ysgolheigaidd ei natur yw hwn er cymaint yr ysgolheictod sydd y tu ôl iddo. Detholiad ydyw o emynau nodedig, dros ddeugain ohonynt, a cheir ynglŷn â phob emyn gyflwyniad byw i'w gefndir. Ceir hefyd gyferbyn â phob emyn lun lliw hardd i'w ryfeddu ond daw'r pleser mwyaf o ddarllen cyflwyniad Mr James a myfyrio ar yr emyn ei hun. Llyfr anrheg a llyfr erchwyn tan gamp a llyfr hefyd y gellir yn hawdd ei ddefnyddio mewn oedfa a seiat.

# Yn Eisiau

YN EISIAU - CANTORION !

Ffurfiwyd côr cymysg newydd yng Nghaerdydd ddiwedd Ionawr gyda'r bwriad o gymryd rhan yn y gystadleuaeth i Gorau Cymuned yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghasnewydd. Gan mai yng Nghapel Salem Canton y bydd y côr yn ymarfer penderfynwyd ei alw yn Gor Gorllewin Caerdydd - ond efallai y daw na ysbrydoliaeth a gweledigaeth bellach ynglyn â'r enw yn y man. (Awgrymwyd Cantorion Canton ond dyfarnwyd hwnnw yn ormod o Chinese take-away!). Daeth criw da at ei gilydd eisoes i ymarfer y darn gosod dan arweiniad Betsan Gerallt ond mae yna le o hyd i gantorion o bob llais yn arbennig, fel bob amser, i faswyr a thenoriaid. Os byddwch chi'n cymryd at y syniad o fod yn aelod o gôr am gyfnod byr, sef o hyn tan fis Awst, dewch i Festri Salem (Market Road) am 7 o'r gloch ar y nos Fawrth nesaf bosibl i ymarfer am awr - byddwn yn gorffen yn brydlon am wyth. Croeso mawr.

# Colofn Shân Emlyn



Does dim byd brafiach na mwy brawychus gen i na thudalen wag o bapur ffeil a beiro. Dyna sydd o'm blaen y bore 'ma a'r awen yn fud. Ddoe bûm yn pwyllgora yn Aberystwyth ac yna'n ôl yn syth i gyngerdd yn Neuadd Dewi Sant. Cyrraedd adre wedi ymlâdd gan addunedu i mi fy hun y cawn 'lie in' drannoeth. Ond na, deffroais yn blygeiniol a'r hen feddwl bach 'ma sydd gen i yn gwibio wrth geisio didoli'r holl dasgau mân a mwy sydd angen eu cyflawni heddiw.

Be wna i gyntaf? Sgwennu cofnodion ddoe tra'u bo nhw'n fyw yn y cof? Sgwennu fy ngholofn, gorffen darn arall o sgwennu sydd heb ei gwblhau? Ffonio pobol am ddeunydd i'r Dinesydd, atgoffa rhai eraill, ateb y post? Ceisio setlo'r broblem o gael rhywun i deipio'r Dinesydd? Rhoi dillad yn y peiriant a pharatoi llysiau at ginio? P'un ai troi drosodd a dianc i drymgwsg?

Wel, troi at y radio fu hi, clywed hynt a helynt y tywydd a'r corwyntoedd yng Ngwlad yr Iâ, Ffaroes, Jerman Beit...lle mae'r fan honno, 'dwch? Er gwrando, y cyfan yn golygu dim i mi - wn i ddim sut dywydd mae'r creaduriaid am 'i gael, er i'r cyflwynydd sôn am 'good' a 'moderate'. Dallt dim!Yna rhaglen o ganu emynau yn cael ei chyflwyno gan Gymro - Jack Hywel Thomas - pob emyn yn unsain, anniddorol, ambell un efo descant afrosgo nes mwrdro'r alaw wreiddiol. Tydi 'petha ddim fel y buo nhw' yn nac ydi? Tôn y Botel yn cael ei chanu gan gôr Eglwys Gadeiriol Henffordd - corff o leisiau a'r cyfan yn ddienaid a di-liw. Mae 'na well canu arni yng nghapel bach gwyngalchog ym mhellafoedd hen wlad Llŷn. Yn dilyn, rhaglenni'r Brifysgol Agored ar bynciau astrus y tu hwnt i'm crebwyll i. Dyna orfod gwneud penderfyniad. Nôl i gysgu neu godi - a dyma fi yn y gegin yn sgwennu hyn o lith, sy'n dweud dim, mi wn. Mae hi'n oer yma hefyd, y gwres canolog heb danio eto!

Erbyn y daw'r Dinesydd allan mi fyddwn i gyd wedi cael llond bol o sôn am wneud y 'pethau bychain' a'r geiriau erbyn hyn mor ddiystyr â dŵr ar gefn chwadan. Ond, yn blygeiniol ar fore Sul dyma fi wedi dechrau ar fy 'mhethau bychain' i. Deuparth gwaith ei ddechrau pia hi, er mor annigonol y cynnyrch.

Be wna i nesa, 'dwch? Codi o'r gadair i wneud paned a chael cipolwg arnaf fy hun yn y drych a chlywed llais Mama fel petae hi yma efo mi ac yn deud, 'Mi fasa rheitiach iti roi crib trwy dy wallt'. Dyna wna i nesa.

# Cyfarchion o'r Wladfa

Tŷ Camwy
425 M D Jones
Gaiman
9105 Chubut
Yr Ariannin

Dyma anfon gair eto at ddarllenwyr Y Dinesydd a ninnau bellach wedi symud i fyw yn Nhŷ Camwy yn Gaiman. Mae pethau dipyn yn wahanol yn y pentre yma sydd tua hanner awr yn y car o Drelew ar hyd yr heol hirsyth yna sy'n cysylltu holl bentrefi'r dyffryn. Wrth i Angharad gerdded ar y ffordd i siop Mr a Mrs Williams, y Mercado Gales i brynu te a thatws trwy gyfrwng y Gymraeg mae hi'n siwr o ddod ar draws rhywun sy'n medru'r iaith. Mae'r tŷ ei hunan yn hen. Trwy garedigrwydd mawr Homer a Mona Hughes cawsom aros mewn tŷ yr oeddynt newydd ei adeiladu yn Nhrelew. Yn Nhŷ Camwy mae'r coed ffrwythau, y traul ar stepen y drws ac enwau plant yr ymwelwyr blaenorol wedi eu hysgythru ar y wal gefn yn eich atgoffa chi o'r gorffennol. Gobeithio'n wir y byddwn yr un mor hapus yma ag y buom yn Almirante Brown, yng nghwmni hwyliog Homer a Mona!

Mae gyrru yn Nhrelew wedi bod yn brofiad! Cawsom fenthyg Citroen 3cv y capeli ar gyfer y flwyddyn ac mae hynny wedi bod yn fantais fawr. Heolydd un ffordd sydd yn Nhrelew i gyd a'r rheiny yn y dull Rhufeinig yn hollol syth. Blociau sgwâr o dai sydd felly. Nid oes cymaint o reolau yma ag sydd yng Nghymru. Mae'r goleuadau yn fwy o awgrym caredig neu ganllaw nag o orchymyn cadarn. Cefais y profiad wrth gerdded ambell dro o groesi tua diwedd y gwyrdd a gweld llanw o geir, wedi aros peth amser yn barod, yn penderfynu gyda rhyw golli amynedd cymedrol i groesi ar y coch. Chwaraeais i 'rioed yn safle'r asgellwr ond fe symudais i'n ddigon clou y prydiau hynny. Ond cofiwch, os nad oes gormod o reolaeth ar y traffig mae pobl yn gyrru'n fwy pwyllog na ni. Dim ond ambell i ddyn ifanc sydd i'w weld yn sbidio. Ac mae ganddyn nhw dechneg effeithiol o arafu ceir wrth iddyn nhw ddod at y groesffordd sef cwymp sydyn yn lefel yr heol. Unwaith i chi gymryd un o'r rheiny'n rhy gyflym dych chi ddim yn brysio i'w wneud eto!

Mae dathliadau'r Nadolig yn y capeli wedi bod yn achlysuron bywiog a hapus. Er gwaetha'r gwres cymerodd y plant ran yn ardderchog a'r capeli yn Gaiman, Trelew a Threorci yn llawn dop. Bydd llawer o waith yn fy aros ar ôl ein gwyliau yn ymwneud â'r 'chacras' (y ffermydd lleol) ac yn crwydro'n oll yn gyson i Drelew er mwyn ymweld â'r Cymry.

Heddiw mae'r tywydd yn glir eithriadol. Mae glesni'r awyr yn anarferol o bur a'r coed poplys a helyg lawr yn sgwâr Gaiman yn plygu'n urddasol yn yr awel. I'r rhai ohonoch sy'n ei hadnabod mae'r olwyn ddŵr yn dal i droi yn y ffos sy'n rhedeg ar draws y plaza, a miwsig diog y dŵr yn disgyn yn ddymunol iawn ar y glust ar ddiwrnod o haul. Mae'n rhwydd iawn ymgolli yn y fath olygfa a theimlo'n rhan o'r lle. Mewn gwirionedd cefais y profiad o berthyn ar ddydd calan, nid oherwydd ein bod ni'n mwynhau 'asado' blasus o oen wrth ochr y tân yn yr awyr agored ar fferm Nelia a Gwalia Humphreys, ond oherwydd fy mod i wedi llwyddo i 'daclu' rhywbeth! Taclu (trwsio) yw un o eiriau mawr y bobl yma, y dynion yn arbennig. Ymhyfrydant mewn defnyddio dyfeisgarwch a dygni er mwyn cael peiriant neu radio neu ddrws i weithio fel y dylai. Bid siwr, rhywbeth sydd wedi cael ei etifeddu o fywyd y chacra yw'r hoffter yma, yn bell o fyd Halfords a Homecare! Clo'r petrol oedd wedi ei dorri pan rwygodd rhyw lanc oedd yn gweini nafta (petrol) gaead y tanc yn ei or-frwdfrydedd. Llwyddais i ddad-wneud y cyfan a'i osod yn ôl i weithio (bydd y rhai sy'n fy nabod yn synnu at hynny) a dyna fe, wedi ei 'daclu'. Mae dyn y teimlo'n dipyn o 'chap' (ymadrodd pwysig arall) wedyn. Dechrau da i'r flwyddyn newydd - ein gobaith a'n gweddi yw y bydd Duw yn parhau i'n cynnal ni a gwneud ein hymweliad yn fendith i'r bobl annwyl yma.

Gyda chofion cynnes

Phil ac Angharad Ellis.

---

Diolch i bawb sy'n cyfrannu i'r Dinesydd un ai yn achlysurol neu trwy archeb banc. Yn ein rhifyn nesaf cyhoeddir rhestr o'r cyfranwyr gan ei bod yn ddiwedd ein blwyddyn ariannol. Tra yn diolch, tybed a all y rhai ohonoch sy'n cyfrannu trwy'r banc ddweud wrthym beth yw eich cyfeiriad, fel y gallwn ddiolch i chi!

**EGLWYS Y TABERNACL**
**CAERDYDD**

Nos Sul 24 Ebrill 1988
am 8 o'r gloch

**CYMANFA GANU**

Llywydd: Y Parchedig Raymond Williams
Arweinydd: Mr Alun Guy
Unawdydd: Ms Elen ap Robert

Mynediad trwy docyn....£1.00

(Rhaglen am ddim ar y noson)

Trefnwyd gan y Tabernacl ar gyfer Crofa Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd 1988)

# BWTH RUTH



Wel helo, pa hwyl sydd. Yn ystod wythnos gynta Chwefror bu 9 beirniad yn gwylio 240 o ffilmiau a rhaglenni teledu yn theatrau canolfan fideo a ffilm Chapter, Treganna.

Erbyn hyn mae Dr. Glyn Tegai Hughes (Cadeirydd), Gwyn Erfyl, Michael Povey a'r chwe beirniad arall sy'n dod o'r gwledydd Celtaidd wedi penderfynu pwy fydd yn derbyn gwobrau yn y 9fed Wyl Ryngwladol Ffilm a Theledu yn y gwledydd Celtaidd sy'n cael ei chynnal yng Nghaernarfon rhwng 21 - 25 o Fawrth.

Dyna dasg enbyd i'r beirniaid - gwylio 99 ffilm/fideo o Gymru, 47 o Iwerddon, 40 o'r Alban, 29 o Lydaw a Ffrainc, 14 o Loegr a 6 o Gernyw a 2 o Ogledd America. Diddorol fydd clywed am brofiad y beirniaid wrth wylio ffilmiau mewn 8 iaith - Cymraeg, Ffrangeg, Llydaweg, Gwyddeleg, Gaeleg yr Alban, Cernyweg a Sbaeneg a'r 5 di-ddeialog pan gyhoeddir y dyfarniadau yn yr Ŵyl.

Fel y gwelwch chi, dyma'r 9fed Ŵyl a'r drydedd waith iddi ddod i Gymru. Yn ôl Siôn Pyrs, Swyddog y Wasg i'r Ŵyl, mae Gŵyl '88 am dorri pob record.


Ym Mhlas Menai ar lan yr Afon Fenai fydd pethe'n digwydd drwy'r dydd ag yna, fe fydd yna sesiynau gwylio a thrafod yn Theatr Seilo, Caernarfon gyda'r nos - meddyliwch, 30 awr o wylio ffilmiau a 10 sesiwn drafod i'r ymwelwyr ddewis ohonyn nhw.!!

Y dasg fu gerbron y beirniaid oedd dewis y goreuon o'r categorïau canlynol: Ffilm Nodwedd, Drama, Rhaglenni Dogfen/Nodwedd, Adloniant, Traddodiad Celtaidd, Newyddion a Materion Cyfoes, a Plant. Wedi dewis enillwyr ymhob un o'r categorïau yna, mi fydd y beirniaid yn dewis enillwyr y gwobrau arbennig.

Diddorol fydd gweld pa ffilmiau gaiff wobrau yn enwedig gan fod yna lawer yr ydan ni wedi eu gweld ar S4C yn y gystadleuaeth - dwi'n edrych ymlaen yn fawr at y nos Iau o'r wythnos honno - dyna pryd gawn ni'r canlyniadau.

Hwyl i'r Ŵyl - Prifwyl Deledu'r Celtiaid a honno'n cael ei chynnal yn y ganolfan ffilmiau fwya y tu allan i Lunden sef Arfon, ag fel mae Alwyn Roberts, Cadeirydd yr Ŵyl yn ei ddweud: "Mae popeth o'r lleoliad i'r drefniadaeth yn awgrymu y cawn Ŵyl fywiog a chofiadwy yng Nghaernarfon."


Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
16 Llys Teilo Sant
Y Rhath
Caerdydd
Ffôn 484816

## Aber a'i Bartner

**Mae** gwylio dwy gyfres newydd BBC Cymru sef **ABER - blwyddyn ym mywyd coleg** a **BOWEN A'I BARTNER yn codi** unwaith eto ac nid am y tro olaf mae'n siwr, berthynas y ddwy iaith mewn rhaglenni Cymraeg ar gyfer S4C

Rhaid dweud cyn mynd ymhellach fod y ddwy gyfres yn dangos ôl meddwl dwys, weledigaeth arbennig a chrefft deledu o'r radd flaenaf. Mae cynhyrchwyr y ddwy gyfres yn haeddu'r clod uchaf am eu menter ac am sglein eu gwaith.

O ran cefndir ac amcan mae'r ddwy'n gwbl wahanol i'w gilydd ac felly mae'r modd o drin y deunydd yn wahanol. Yn y pair defnyddiau mae busnes yr iaith. Yn hyn o beth mae ABER a BOWEN yn gwahaniaethu'n ddirfawr. Defnydd crai Lowri Gwilym, wrth fynd i'r afael â bywyd coleg, oedd pobl y coleg yn fyfyrwyr, yn staff, yn swyddogion o fewn y coleg ac yn y dref. Gan nad yw hi wedi dewis defnyddio un llais fel traethydd mae hi'n dibynnu'n llwyr ar iaith pobl o bob math 'fel mae'n dod'. Dyna ran o ogoniant realaeth.

Er mai Neuadd Pantycelyn sy'n allweddol i fywyd y coleg o safbwynt y gyfres mae'r myfyrwyr sydd ynddi'n gorfod wynebu'r Saesneg y tu allan. Felly mae'r ddwy iaith yn dod i'r wyneb ar waethaf dyheadau unieithrwydd 'bro' Neuadd Pantycelyn. Does dim modd osgoi hyn ac mae'n dda gweld cynhyrchydd yn derbyn her y sefyllfa a'i wynebu.

Darn o ysgrifennu creadigol wedi'i seilio ar ran o fywyd Caerdydd yw BOWEN. Felly mae popeth dan reolaeth yr awdur, Sion Eirian. Cymry Cymraeg eu hiaith yw'r triawd canolog ond di-Gymraeg yw'r heddlu er mae'n wir i ni gael plisferch ddigon gwanllyd yn y rhaglen gyntaf. Di-Gymraeg ar y cyfan yw'r drwgweithredwyr, y dihirod maleisuss Caniateir i ni ein cymhlethdodau seicotig ond mae'r 'bechgyn trymion' a'r cythreuliaid creulongas yn methu'r Gymraeg. Os nad dyna fel y mae hi dyna fel y mae'r sgript yn ei dangos hi.

Fe ellid dadlau mai 'darn o fywyd' yw ABER ac mai darn o ddifyrrwch yw BOWEN - ond prun sy nes at y gwir?

W.L.

## TAFLEN

Mawrth 1af eleni yw diwrnod cyhoeddi'r cyfieithiad newydd o'r Beibl Cymraeg ac, fel rhan o'r dathliadau, bydd arddangosfa arbennig iawn yn TAFLEN.
Yn ogystal â chopïau o'r Beibl newydd, bydd tri pen cerameg anferth yn dynodi rhai o gymeriadau'r Beibl yn rhan o'r arddangosfa.
Gwaith Mary Dewey o Gaerdydd yw'r pennau ac fe gewch gyfle i weld ei gwaith yn y siop o ddydd Sadwrn, Chwefror 27 hyd ddydd Gwener, Mawrth 14. Ar bob dydd Sadwrn, yn ystod y cyfnod hwn ac hefyd ar Fawrth 1af, bydd Mary Dewey yn y siop i drafod ei gwaith.

Atdyniad arall yn TAFLEN, yn ystod mis Mawrth, fydd ymweliad gan Molly Curley, y grochenwraig adnabyddus o Gaerdydd. Rhwng 10 a 2 o'r gloch ar ddydd Sadwrn, Mawrth 19 (diwrnod gem Cymru a Ffrainc) bydd Molly yn y siop yn arddangos ei chrefft a'i nwyddau. Ceir cyfle i brynu ei deunydd gorffenedig ar y pryd neu i archebu darnau o'i gwaith mwyaf arbennigol.




DEFOD WILLIAM MORGAN...

Y CARTŴN O SBEC: CHWEF 27 - MAWRTH 4

# DATHLU '88

## Molawd Merêd

Sgwenna rwbath ar gyfer Gŵyl Ddewi i'r **DINESYDD** : dyna'r gorchymyn a ges i er ei fod o wedi ei wisgo fel y peth tebyca' 'rioed a glywsoch chi i apel garedig. A phwy a allai wrthod Sian?

Ond sgwennu am beth? Nid am arwyddocad yr Ŵyl, yn sicir. Nid nad oes arwyddocad iddi, wrth gwrs. Y mae, a mi fydda' i'n ei dathlu hi yn fy ffordd fy hun bob blwyddyn yn ddifeth. Yn wir, rwy'n ymfalchio yn Dewi Sant ac yn cynhesu ato yn fawr bob tro y byddaf yn darllen paragraffau clo 'Buchedd Ddewi'. Diolch am nawddsant mor ragorol ac am wr a fedrai bregethu mor sylweddol a syml.

Serch hynny rhyw deimlo yr ydw i fod y pwnc arbennig yna [illegible] braidd yn rhy drwm i'w drafod mewn ychydig eiriau. Wel ynte, beth am ddathliad pedwar can mlynedd cyfieithu'r Beibl i'n hiaith ni? Mae hwnnw hefyd yn Wyddfa o bwnc a chyn diwedd y flwyddyn mi fydd 'na gyfan-diroedd o eiriau a rhai milltiroedd o ffilmiau, wedi eu treulio, i'w gyflwyno i ni'r Cymry. A does bosib na ddaw rhai Saeson, oleia, i amau bod 'na ryw gynnwrf yn ein plith ni'r colomennod dof. Ac, wrth gwrs, mae'n hollol briodol ein bod ni'n dathlu digwyddiad mor syfrdanol o bwysig yn ein hanes ni. Dydy hi ddim yn debygol y byddech chi a minnau'n darllen unrhyw bapur bro heddiw 'ma onibai am gymwynas wiw William Morgan, William Salesbury, Richard Davies, John Davies, Richard Parry, a'u cymrodyr yn y ffydd.

Dyna chi felly yn gwybod nad Dewi Sant na William Morgan ydy 'gwrthrychau' hyn o druth. Y gwir ydy nad oes awydd 'trafod' unrhyw bwnc arna' i ar hyn o bryd. Ond mi garwn i godi gwaedd dros ddau fater, a'i gadael hi ar hynny, heb na dadl nac ystyriaeth, gan fod y cyfan yn ymddangos i mi mor boenus o amlwg. Dyma nhw. Rhaid inni wrth rym deddf os am sicrhau ein hawliau fel Cymry Cymraeg a rhaid inni, ar wastad gwleidyddol, gymryd y mewnlifiad i'r ardaloedd gorllewinol o ddifri.

Ac y mae 'na un peth arall i'w ychwanegu, sef bod 'na gysylltiad amlwg rhwng y ddau ddathliad a'r ddau [illegible] hyn. Mae a wnelo'r cyfan ag amod ein bodolaeth ni fel Cymry. Cymru Cymraeg a Chymru Gristnogol: a oes 'na unrhyw nod mwy arwyddocaol na hwnna?

Merêd.

# DATHLU '88

## Cwyn Gwyn

Ar ôl pymtheg mlynedd o fyw yng Nghaerdydd a symud i Ddyffryn Clwyd wyth mlynedd yn ol, mae gen i gyfaddefiad - mai arwynebol ar y naw yw ein rhaniadau a'n dosbarthiadau. Os ydech chi, ddarllenwyr Y Dinesydd, am ddal i feddwl yn nhermau gwlad a thref, ifanc a hen, cyffredin ac ysgolhaig, pridd a choncrid, pechadur a sant, du a gwyn, rhywun a neb, mods a chons ac ati ac ati, wel, os ydy'r math yna o adrannau'n help i chi ddeall eich hunain a'ch gilydd yn well, - rhwydd hynt i chi.

Ond tyden nhw'n golygu ddim byd, wir. Nid y naill beth na'r llall ydy neb ohono ni ond cymysgedd. Mi wn am hen bobol atgofus o dan eu deugain a rhai pedwar ugain sydd wedi peidio â chyfri'r blynyddoedd ers tro. Ac yng Nghaerdydd, o bob man, buan iawn y sylweddolwch chi nad y rhai disgleiriaf bob amser sydd ar y brig ac nad y teilwng sy'n derbyn pob anrhydedd. A naw wfft i'r ffordd o drio penderfynu pwy yw'r galluog a'r athrylithgar heb sôn am ein harfer dyddiol (neu Sabothol) o chwarae Duw a chloriannu i gadwedig a cholledig.

Yn fwy penodol, ffals hefyd ydy'r sôn am ddinas a gwlad (heb sôn am benfref a thref!). Mae'n wir, ar yr wyneb, y gallwch chi sòn yng Nghaerdydd am siopau gwell (na siopau Caer?) am theatrau (pwnc llosg) am strydoed[illegible]ian, am glybiau a phartion a iypis. Ond wedyn, pa mor arhosol a pha mor ddwfn ydy'r holl bethau hyn? Ac nid yw'r 'gwledig' bellach ychwaith heb ei fywyd cymdeithasol a'r steil gyfoes.

Dwi wedi cael mwy na llond bol ar y cyfeiriadau crechwenus am y **gogs**, y duedd ymhlith nifer o'n newyddiadurwyr i fethu derbyn fod yna Gymru y tu hwnt i Bontypridd yn y gogledd, ac Abertawe yn y gorllewin a'r perygl ymhlith rhai cynhyrchwyr radio a theledu i syrthio'n ol (yn ormodol) ar y dosbarthiadau proffesiynol sy'n byw o fewn pellter hwylus i Landaf neu Groescwrlwys.

Ar yr un gwynt mi fydda i hefyd yn ffromi pan glywa i rai lleisiau hunangyfiawn o gefn gwlad sy'n rhoi pob trachwant a llygredd o fewn i'r ffram ddinesig. Tydi gwerthoedd Dinas yr un iot is na Chwm Deri neu Deryn!.

Wrth lawenhau 'mod i'n awr yn gallu mynd am dro gyda'r hwyr i sawru glaswellt a choed a chàn aderyn, bref·oen neu sŵn nant, fydd yr holl hyfrydwch yma ddim yn tanseilio f'argyhoeddiad fod gwead cymeriadau a'r gyfathrach sydd rhyngddyn nhw yn annibynol ar ein caeau a'n concrid. Mi rydwi hefyd yn ymdawelu fwy-fwy yng nghyfaredd cynnes y 'rhwydwaith dirgel' sy'n cyfuno Llandaf a Rhuthun, Banwy a Glanaman, Harlech a Thrawsfynydd, Caernarfon a'r Felinheli!

GWYN ERFYL

---

CALENDR DATHLU CYFIEITHU'R BEIBL 1588-1988

**Mawrth 6ed**

'Pasiant y Plant' i ddathlu Cyfieithiad Newydd y Beibl yng Nghapel Bethlehem, Gwaelod y Garth am 10.30 o'r gloch.

Gwasanaeth Dathlu Cyfieithiad Newydd y Beibl yng Nghapel Bethel, Penarth gan Ysgol Gymraeg Penarth am 10.45 o'r gloch. Bydd 'Cannwyll y Cymro' ymo yno yn ystod y Gwasanaeth.

Theatr y Sherman am 8 o'r gloch. Disgyblion Ysgol Gyfun Llanhari yn perfformio 'Yn y dechreuad.....', drama gerdd ar fywyd a gwaith yr Esgob William Morgan. Geiriau: Mair Gruffydd; Cerddoriaeth: Euros Rhys Evans. Tocynnau: £3.50


**Ebrill 29 - 30**

Ysgol Ddeuddydd. Thema: 'Cyfieithu'r Ysgrythurau i'r Gymraeg 1588'. Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd. Cynullydd: Dr. J. Gwynfor Jones.

**Chwefror 22 - Mawrth 8**

Arddangosfa ar y thema 'Cyfieithu'r Beibl' yn Eglwys Gadeiriol Llandaf, wedi ei drefnu gan Ysgol Esgob Llandaf.


Y BEIBL CYMRAEG NEWYDD



— O £6.50 —
dim llawer i'w dalu ar ôl 400 mlynedd

AR GAEL MEWN SIOPAU LLYFRAU DA LED LED CYMRU

CYMDEITHAS Y BEIBL


## Colofn i Feddwl

Fe ges i achos y dydd o'r blaen i ymweld â thref Llanymddyfri. Llandyfri fydde hi i ni ym Mrynaman a 'dros y mynydd' oedd ei lleoliad. 'Y Mynydd' gyda llaw oedd y Mynydd Du, ac yn un bwndel fe fydden ni'n rhoi Gwynfe, Llangadog, Llanddeusant a Llandyfri - a bys 'Thomas' yn dod draw bob nos Wener, er mwyn mynd i'r pictyrs ym Mrynaman.

Y tro dwetha i mi fod yn Llanymddyfri oedd yng ngwmni'r hanesydd, Dr Gomer Roberts a phwy'n well i'm tywys i Lanfair ar y Bryn a Llandingat. Nawr fe wn i fod Llanfair yn gyfarwydd i lawer ohonoch chi am mai fanno y mae bedd William Williams, Pantycelyn. Ond Llandingat? Wel, dyna eglwys blwyf Llanymddyfri, ac yno ar un adeg y bu gŵr o'r enw Rhys Pritchard yn Ficer.

Roedd e wedi cael ei addysg yn Ngholeg yr Iesu, yn Rhydychen ac ar y chweched o Awst 1602 cynigiwyd iddo fywoliaeth Llandingat a Chapeliaeth blwyfol Llanfair ar y Bryn gan Dr Anthony Rudd, Esgob Tyddewi. Mae hanes ei fywyd yn ddiddorol a chynhyrfus ac yn werth i chi ei ddilyn ond digon i mi yw dweud mai Rhys Prtichard oedd Y FICER PRITCHARD y bu ei Gannwyll yn fodd i Oleuo'r Cymry.

Ac erbyn darllen hwn fe fyddwch chi'n gyfarwydd â Channwyll y Cymro, ymgais i boblogeiddio y cyfieithiad newydd o'r Beibl i'r Gymraeg; cyflwynwyd y cyfieithiad hwnnw i'r genedl yng nghapel y Tabernacl Caerdydd ar Fawrth y Cyntaf. Mae'r rheini sydd wedi gweld y cyfieithiad newydd yn gwybod ei fod yn haws i'w ddeall, er nad yr un mor llenyddol falle, (er cofiwch fe greda i fod ei rhithmau yr un mor llyfn yn aml â'r hen gyfieithiad). Beth bynnag amcan y cyfieithiad newydd yw gwneud yn gywir beth geisiodd Rhys Pritchard ei wneud - rhoi'r Gair mewn geiriau a thermau roedd pawb yn eu deall.

Wrth estyn croeso i'r Cyfieithiad Newydd felly, allwn ni ddim gwell na'i gyfarch yng ngeiriau'r Ficer o Lanymddyfri:

Llaeth i fagu'r gwan ysbrydol,
Gwin i lonni'r trist cystuddiol,
Manna i borthi'r gwael newynllyd
Ydyw'r Gair, a'r 'fengyl hyfryd,

Gwerth dy dir a gwerth dy ddodrefn,
Gwerth dy grys oddi am dy gefen,
Gwerth y cwbwl oll sydd gennyd,
Cyn b'ech byw heb Air y bywyd.

Gan i Dduw roi i ni'r Cymry
Ei Air San'taidd i'w gwir ddysgu,
Moeswch i ni fawr a bychain,
Gwympo i ddysgu hwn a'i ddarllain.

# SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

**ARIES:** Mae cyfnod llewyrchus iawn yn ariannol yn dechrau i chi'r mis hwn. Mae hi'n bryd canolbwyntio ar eich gwaith a'ch gyrfa. Thâl hi ddim i chi fod yn ddiog a gadael pethau i lithro. Os ydych wedi bod yn gweithio'n galed a chydwybodol yn y gorffennol mi ddylech elwa o hynny nawr.
**TAURUS:** Dylai hwn fod yn fis ardderchog i chi gan fod y planedau ffodus Iau a Gwener yn symud i'ch arwydd. Cyfnod lwcus dros ben. Gellwch wireddu'ch holl freuddwydion nawr ond i chi gymryd mantais o garedigrwydd y sêr a gweithio i'r cyfeiriad iawn. Ddaw dim heb waith.
**GEMINI:** Mis prysur fydd hwn, yn enwedig yn y gwaith, a chyfnod gwych i ofyn am ddyrchafiad neu fwy o gyflog. Mis ardderchog i wneud newidiadau a throi tudalen newydd yn y gwaith, y cartref a'ch bywyd personol. Rydych chi'n llawn syniadau gwreiddiol ar hyn o bryd - defnyddiwch nhw!
**CANCER:** Mae hi'n hen bryd erbyn hyn i chi ehangu'ch gorwelion. Daeth y cyfnod o encilio i ben - ewch allan a mwynhewch; mae'r gwanwyn ar ei ffordd! Beth am drefnu gwyliau tramor? Efallai y byddwch yn teimlo'n gaeth o fewn perthynas. Byddwch amyneddgar, daw pethau'n well yn y man.
**LEO:** Os buoch yn esgeulus o'ch materion ariannol yn ddiweddar rhowch drefn ar bethau nawr yn ddiymdroi. Mi ddylai pethau symud ymlaen yn eitha cyflym yn y gwaith o hyn ymlaen ond i chi fod yn barod i weithio'n galed a chydwybodol. Cymrwch ofal o'ch iechyd y mis hwn.

**VIRGO:** Daeth y gwanwyn ac yn ei sgîl gyfle i droi tudalen newydd yn eich bywyd personol. Fe allai hwn fod yn fis rhamantus i chi, a chreadigol hefyd. Os bu unrhyw broblem yn eich poeni'n ddiweddar gwell fyddai ei thrafod gyda ffrind neu arbenigwr yn hytrach na'i chadw i chi'ch hun.
**LIBRA:** Mis cymysglyd iawn fydd hwn pan all unrhyw beth ddigwydd a mwy na thebyg y gwnaiff e! Byddwch yn barod am gariad a chweryl, am arian a biliau, am bartion ac unigrwydd. Mi fydd digon yn digwydd o'ch cwmpas, o leia fyddwch chi ddim yn 'bored'.
**SCOROIO:** Wel, mi ddylai hwn fod yn fis rhamantus iawn i chi, Scorpio, naill ai gyda'ch cymar presennol neu gyda rhywun cyffrous. Wow! Ond cedwch bob teimlad o genfigen o dan reolaeth. Bydd hwn yn gyfnod creadigol iawn hefyd a chewch gyfle i wneud rhywbeth dros y llai ffortunus.
**SAGITTARIUS:** Rhaid i chi ganolbwyntio ar eich gwaith bellach. Fe ellwch gyflawni llawer ond i chi ymroi. Ac os na welwch chi ganlyniad yn syth, fe ddaw'r ganmoliaeth ddyledus yn ei bryd. Cyfnod da yn ariannol, a dylai'ch iechyd fod yn well nag y bu ers tro.
**CAPRICORN:** Mis creadigol a rhamantus ar un olwg, ac mi ddylai canol y mis fod yn lwcus dros ben. Mwynhewch - ewch am wyliau - gwnewch rywbeth newydd a chyffrous! Ond erbyn diwedd y mis daw tro ar fyd. Efallai y bydd anghydfod yn y cartref yn eich gwneud i deimlo'n eitha isel eich ysbryd.
**AQUARIUS:** Mis ardderchog i wneud y sbring clinio, i ganolbwyntio ar y cartref, ei beintio a'i harddu, neu i symud hyd yn oed. Bydd angen encilio arnoch nawr ichi gael heddwch a llonydd. Byddwch mewn cyfyng gyngor ddiwedd y mis, pa un sy'n mynd i ennill - eich pen neu eich calon. Bydd rhaid penderfynu.
**PISCES:** Dylai hwn fod yn fis ardderchog i gymdeithasu. Peidiwch da chi â chadw i chi'ch hunan nawr. Gellwch fod o help i rai llai ffortunus, cyfeillion, cymdeithasau, elusennau. Dyma'r amser gorau i wneud cynlluniau manwl am y flwyddyn nesa yn y gwaith a'r cartref.

---

Llongyfarchiadau i Gerald a Mair Latter Llandaf (gynt o Fae Colwyn) ar ddod yn daid a nain. Ganwyd mab (Daniel Gerallt) i Sian a Rudi ar yr 27ain o Ragfyr yn yr Almaen.

---

Bu farw Mrs. E. Nethey yn 'Cartref', Lake Road East ar yr 22ain o Ionawr. Roedd hi'n gant oed fis Awst diwethaf a than rhyw bedair blynedd yn ol roedd hi'n ffyddlon iawn yn Ebeneser ar y Sul ac i Gymdeithas y Chwiorydd ar brynhawn Iau. Cydymdeimlir a'i nith Mrs. Enid Parry, Bangor.

---

## Ysgoloriaethau i Rydychen

Mae dau o chweched dosbarth Ysgol Gyfun Glantaf wedi ennill ysgoloriaethau i Rydychen. Cafodd Gerallt Pritchard Jones, Mab Gwyn ac Eirlys Jones Llanbedr y Fro, ysgoloriaeth i Goleg yr Iesu; a Taliesin Michael, mab Mr. a Mrs. Alun Michael, A.S., Rhiwbeina, ysgoloriaeth i New College, Rhydychen. Llongyfarchiadau i'r ddau.

(Hei lwc y bydd canlyniadau arholiadau ysgoloriaethau Bangor ac Aberystwyth wedi cyrraedd cyn y rhifyn nesa').



Arlwyo Avril
Partïon, ac Achlysuron Arbennig.
Darperir at unrhyw rif.
Rhywbeth at ddant pawb.
Bwyd ffres.
Prisiau rhesymol.
Ffôn 481001 (Caerdydd) am fwydlen.


# Pamffledi

**Y Cyntaf Mewn Cyfres Newydd o Bamffledi Cymraeg**

**'Oes atal dweud ar eich plentyn?'**

Pamffledyn newydd, yn yr iaith Gymraeg, ar gyfer rhieni sy'n gofidio am leferydd eu plant. Mae nifer o blant yn mynd trwy gyfnod o 'atal dweud' fel rhan naturiol o'u datblygiad, ond mae rhai plant yn datblygu atal dweud o ddifri pan maen nhw'n ifanc. Bydd y pamffledyn hwn yn gymorth i rieni sy'n wynebu y broblem o blentyn sydd wedi dechrau datblygu atal dweud. Cynigir gwybodaeth am atal dweud sy'n glir ac yn hawdd i'w deall. Mae'r pamffledyn hefyd yn cynnig syniadau ar sut y gall rhieni fod o gymorth i'w plentyn. Mae'n cynnwys awgrymiadau ynglyn a sut i helpu'r plentyn - beth i'w wneud yn ogystal a beth na ddylid ei wneud, a hefyd awgrymiadau ynglyn a sut i greu awyrgylch fydd yn llesol i'r plentyn.

Lluniwyd y pamffledyn gan Bwyllgor Ymchwil Therapyddion Lleferydd i Ddwyieithrwydd, dan nawdd Awdurdod Iechyd Sir Benfro Sefydlwyd y Pwyllgor er lles plant ac oedolion dwyieithog Cymru. Dymuna'r Pwyllgor gynnig diolch i bawb fu'n gysylltiedig a pharatoi'r pamffledyn, gan gynnwys Mr. Morris Rhys a Dr. Urien Wiliam.

Mae'r pamffledyn ar gael oddi wrth:

Pwyllgor Ymchwil Therapyddion Lleferydd i Ddwyieithrwydd,
Adran Therapi Lleferydd,
Ysbyty Llwyn Helyg,
Hwlffordd,
Sir Benfro, Dyfed.

Mae'r gost fel a ganlyn:

10 - £1.50;
50 - £3.00;
100 - £4.50;
500 - £20.00

(Cludiant yn rhad ac am ddim)

Os ydych am fwy o wybodaeth, cysylltwch a :

Mari Williams,
Adran Therapi Lleferydd,
Ysbyty'r Bwthyn,
Lon Ddewi,
Caernarfon,
Gwynedd.

---


**Huw Roberts** BSc, ACMA
*Cyfrifydd*

Treth
Cyfrifon
VAT

Buddsoddi
Pensiynau
Morgeisi

*"Preswylfa",*
*28 West Hill Drive,*
*Llantrisant,*
*Morgannwg Ganol*
*Ffôn Llantrisant 224182.*

# Arddangosfeydd *Mawrth*

**AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU
Y PRIF ADEILAD, PARC CATHAYS**

**GERALLT GYMRO
- 24 Mawrth - 30 Hydref**

Trefnwyd yr Arddangosfa gynhwysfawr hon gan CADW. Yr oedd Gerallt Gymro yn ysgolhaig, diplomydd, clerigwr, gweinyddwr a gwleidydd o fri, ac fe gofir amdano'n bennaf erbyn hyn am ei daith nodedig trwy Gymru yn 1188. Mynediad i oedolion £2.00, plant a phensiynwyr £1.00; tocyn i'r teulu (2 oedolyn a 3 o blant) £5.00. Dylai partion ysgol drefnu ymlaen llaw.

**AMGUEDDFA WERIN CYMRU,
SAN FFAGAN**

**DARLUNIAU MEWN GWNIADWAITH
- 7 Mawrth - 15 Ebrill**

Arddangosfa o ddarluniau brodwaith - hanesyddol a modern.

**AMGUEDDFA DIWYDIANT A MOR
CYMRU, HEOL BUTE**

**GLOWYR WRTH EU GWAITH
- 2 Mawrth - 10 Ebrill**

Ffotograffau gan lowr sy'n gweithio yng Nglofa Lady Windsor - Les Price.

**Y FFOTOGALLERY, HEOL SIARL**

**GWEITHYDD CAMERA
- 27 Chwefror - 2 Ebrill**

Gweithiau detholedig o weithdai pum cymuned yng Nghymru - sef Y Rhondda, Y Cwm a'r Fro; Caergybi; U-Print; a Trelai

**CHAPTER, HEOL Y FARCHNAD,
CANTON**

**PRINTIADU - PUMP ARDDANGOSFA
- 13 Chwefror - 6 Mawrth**

**STEIN RONNING (Cerfluniau)
- 19 Mawrth - 10 Ebrill**

**GWEITHIAU MERCHED '88
- 8 - 16 Mawrth**

Arddangosfa arbennig i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Merched (8 Mawrth). Peintiadau, cerfluniau, ffotograffau, ffilm a fideo gan grwp o ferched o Gaerdydd.

**ORIEL, HEOL SIARL**

**SGRIN A LLWYFAN BRYDEINIG
- 27 Chwefror - 26 Mawrth**

Arddangosfa a drefnwyd gan Charles Spencer ar y cyd a Oriel Theatr Clwyd.




**Dydd Mercher,
16 Mawrth
PUMAWD
PRES Y COLEG**
gyda Lynne Bassett
(Unawd Telyn)


# Eisteddfod Casnewydd





**CWMNI O WENT YN CYNHYRCHU PLAT YR EISTEDDFOD.**

Mae'n sicr y bydd plat arbennig Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd, a gynlluniwyd ac a gynhyrchwyd yng Ngwent yn eitem i gasglwyr. Paentiwyd y plat porslen a llaw mewn aur, glas a choch. Sail y cynllun yw patrymau traddodiadol y cwlwm Celtaidd, ac mae'n cynnwys arfbais Bwrdeisdref Casnewydd ynghyd a Logo'r Eisteddfod. Y cynllunydd yw David Cornelius, athro yn Ysgol Gyfun y Bettws a sefydlodd ffatri grochenwaith ym Mhontllanffraith tua thair blynedd yn ôl, i geisio creu gwaith i rai o'i gyn-fyfyrwyr a phobl ifanc eraill gyda'r awydd a'r gallu ar gyfer y gwaith. Mae'r Cwmni, 'Silurian Ceramic Crafts' eisoes wedi sefydlu enw da iddynt eu hunain oherwydd safon uchel y gwaith ac mae plat yr Eisteddfod yn enghraifft wych o hyn. Mae'r plat porslen yn unigryw ond mae'r Cwmni yn cynhyrchu hefyd amrywiaeth eang o lestri ac maent bellach wedi dechrau gwerthu eu cynnyrch y tu allan i Gymru.

Mae pob plat wedi ei rifo ac yn rhan o gyfres gyfyngedig. Mae'r plat ar werth o Swyddfa'r Eisteddfod - pris £20, neu £21 os dymunir cael blwch cyflwyno arbennig.

Ymholiadau oddi wrth:
Margaret Jones,
Swyddfa'r Eisteddfod,
Moderator Wharf,
Rhodfa'r Brenin,
Casnewydd, Gwent.
Ffon: (0633) 54917


**Paentio a phapuro a phob agwedd o waith cynnal a chadw adeiladol, cysyllter â Ieuan Williams. (Ffôn 610957).**




Ysgrifenwyd llawer o eiriau yn Y Dinesydd yn y flwyddyn ddiwethaf am drefniadau Eisteddfod Casnewydd. Efallai y bydd yn ddiddorol nawr i feddwl ar effeithiau ar y boblogaeth leol - y mwyafrif di-Gymraeg a'r ffyddloniaid sy'n medru'r iaith. Mae rhai o'r canlyniadau yn fwy eglur yma na fyddant mewn ardal mwy Cymraeg.

Mae yr effaith ar y Cymry Cymraeg yn hawdd i'w weld ac i'w ddeall. Rydym yn cwrdd mor aml nawr - mewn pwyllgorau, nosweithiau cymdeithasol i godi arian ac yn y blaen - ac yn dilyn hynny, rydym wedi dod i adnabod ein gilydd mewn ffordd newydd. Mae ysbryd newydd o gyfeillgarwch wedi tyfu a hyd yn oed hen ffrindiau wedi darganfod doniau newydd yn ei gilydd.

Mae Gwent yn dir cyfoethog am ddysgwyr newydd o'r heniaith ac maent hwy wedi ffeindio ysbrydoliaeth newydd yn y gweithgareddau gwahanol sy'n mynd ymlaen. Yn sydyn, mae'r iaith yn rhywbeth mwy na gwers mewn dosbarth nos.

Yn y gorffennol roedd nifer bach o garfannau Cymraeg yn y Sir - llai nag yn yr ardaloedd eraill o Gymru. Rhai ohonynt braidd yn newydd a braidd yn genhadol yn eu gwaith - Merched y Wawr a rhieni yr Ysgolion Cymraeg er enghraifft. Rhai fel y Gymdeithas Gymraeg wedi cadw i raddau y bywyd Cymraeg yn fyw yn y dref - ond hefyd, gyda delwedd henffasiwn ac efalla ddim wedi newid gyda'r amserau. Mae anadl newydd wedi dod i ysgyfaint y grwpiau yma yn y ddwy flynedd diwethaf, ac mae ysbryd newydd wedi tyfu.

Mae dyfodiad yr Eisteddfod yn amserol - mae'n digwydd pan mae diddordeb yn yr iaith yn tyfu ar ôl canrif o Seisnigeiddio. Wn i ddim a ydyw hynny yn gynllun o rhyw feddwl ffrwythlon, ond mae'n wir bod darnau y jig-so yn dechrau cloi 'da'i gilydd. Mae agweddau yr Awdurdodau Lleol wedi bod yn esiampl i rhai Corfforaethau Cyhoeddus eraill. Maent hwy, a hefyd, llawer o ddiwydiannau lleol, wedi ein cefnogi yn gryf.

Mae agwedd y Cymry di-Gymraeg wedi newid mewn ffordd ddiddorol iawn. I ddechrau roeddynt yn ofalus a bron yn oeraidd. Wel mae'r eira yn dechrau toddi. Mae Pwyllgor Gwaith Casnewydd wedi gwneud ymdrechion mawr i addysgu y boblogaeth leol am natur yr Eisteddfod ac i'w denu i'r Maes yn Awst. Fe ddengys amser pa mor lwyddiannus yr ydym wedi bod.

Mae'n bwysig hefyd i feddwl am y dyfodol - yr amser pan fydd Eisteddfod Casnewydd yn rhan o hanes. Gobeithio ar ôl yr holl ymdrechion a'r holl gynnwrf y gallant adeiladu ar y seiliau newydd yma a mynd yn ôl i hen draddodiadau unigryw gwahanol Gwent.

J.M.H.

# Darts

Darts. Dyna'r obsesiwn diweddara. Wel - yn tŷ ni, hynny ydi. Saffach na dynion. Callach nag yfed : obsesiwn na all frifo neb na dim. Oni bai bod y chwarewr yn un sâl. Ac wedi penderfynu mai'ch talcen chi yw'r target!

Erbyn hyn, 'den ni wedi rhoi Bwrdd Dartiau i fyny ar wal y parlwr. Yn anffodus mae sawl dart wedi methu'r Bwrdd ac wedi hitio'r papur wal. Felly mae patrwm tyllog hardd iawn ar ein papur wal ni. 'Den ni'n trio deud wrth bawb mai dyma'r trend newydd - ei fod o'n beth ffasiyol iawn yn Llundain - cael tyllau yn y papur wal!

Ond pam darts? Am ein bod ni'n uniaethu ag Eric Bristows a Jocky Wilsons y byd 'ma? Wel - mae ein boliau'n reit debyg, er nad yw'n ffordd o fyw cweit mor alcoholaidd (!) Na, mae 'na rywbeth ynglŷn â'r gêm - rhyw symlrwydd rhyfedd, mewn byd a bywyd sy' ar brydiau'n bopeth ond syml. Rai wythnosau'r ôl, sgwennodd Martim Amis erthygl am ddarts yn yr Observer. Dyna'r apêl iddo ef : y symlrwydd : target - arf - taflu. Llwyddo neu fethu. Du neu wyn. Dim llwydni - dim amheuaeth. Jest sgorio neu beidio sgorio. G'neud yn dda neu'n sâl. Ac mae'n braf, yn braf iawn weithiau, gwybod yn union lle 'dech chi'n sefyll. Dim tindroi'n ansicr yn y tir neb - ennill neu golli. Atalnod llawn.

Ac mae'n rhyfedd sut mae'r gêm yn datgelu gwir natur pobol. Mae rhai'n gwylltio' gacwn, eraill yn fflachio'u llygaid yn heriol, eraill wedyn yn treio bod yn blase - ond 'dech chi'n gwbod yn iawn bod eu gwaed nhw'n berwi! A 'dw i'n credu bod y dull o daflu'n deud lot am gymeriad. Fe welwch chi rai'n taflu'n araf, braf, rhai'n stabio'n ymosodol, rhai ag arddull na fedrai'r seiciatrydd gorau mo'i ddadansoddi! Oes, mae 'na ddifyrrwch seicolegol mawr i'r gêm fach syml yma. Efallai mai'r symlrwydd - fod y gêm mor 'basic' - efallai mai hynny sy'n tynnu'r mygydau i lawr. Efallai. Pwy a ŵyr?

O, a dim ond un peth arall liciwn i ei wneud hefo 'narts. Eu taflu'n bwrpasol, benodol at holl feirniaid 'Teulu'r Mans'. Ond wedi meddwl - pam gwastraffu'r egni, a'r darts ar y fath bobol? M?

Angharad Jones

**YN EISIAU**

**- Teipydd i deipio'r Dinesydd a hynny os yn bosib ar brosesydd geiriau. Y mae cydnabyddiaeth fechan am y gwaith. Cysyllter â'r Golygydd - 751469**

# Menna'n Manylu

'Sut mae'r tywydd acw?' Dyna'r cwestiwn cynta mae rhywun yn dueddol o'i ofyn pa bynnag amser o'r flwyddyn ydy hi, ond bum mis allan o bob deuddeg, mi fentra i mai 'oer iawn' fydd yr ateb gan Mam pan ffonia i hi yn y Gogledd. Mae nghartre i ar fferm fynyddig dri chan erw mewn cwm o'r enw Cwm Cynllwyd sydd dros ddwy fil o droedfeddi uwchlaw'r môr. Rhennir y cwm, yn ddau - Cwm Croes lle saif yr Aran Benllyn a Chwm Union lle'm maged. Mae'r ffordd trwyddo yn arwain o bentre Llanuwchllyn sydd bedair milltir yn y gwaelodion, dros fwlch uchaf Cymru, sef Bwlch-y-groes ac ymlaen i Ddinas Mawddwy, ardal y Gwylliaid Cochion a'r Aran Fawddwy. Mae'r cwm yn nodedig am amryw bethau - cymeriadau unigryw, arferion hynafol fel torri mawn, corddi, gwneud menyn a phobi; ei bobl ddiarth yn yr haf ac yn bennaf am y tywydd garw yn y gaeaf.

Dyna un o'r pethau dw i'n golli'n fawr wedi symud i fyw yma i'r ddinas - colli'r tywydd gartre; colli'r heulwen yn crasu mawn yn yr haf; colli'r wennol a sŵn y gog yn awel ffres y gwanwyn; colli'r llifogydd a 'rhuthr Cynllwyd' yn yr hydref; colli 'llanw coch Awst', ac yn arbennig golli'r gwyntoedd cryfion a'r lluwchfeydd eira yn y gaeaf. Mae 'leni'n eithriad i'r un flwyddyn arall ond fel arfer gellwch fentro y bydd eira dros y cloddiau 'ar y topie' o fis Tachwedd hyd ddiwedd Mawrth, ac nid peth anghyffredin ers talwm oedd cael eira hyd fis Mehefin!

Aml i dro clywais fy nhad a hen gymeriadau'r cwm yn sôn am aeafau caled yr 'hen ddyddiau' a choeliwch fi, mae'r tywydd fel popeth arall yn newid efo treigl amser. Gaeaf drwg 1947 oedd y gwaetha mae'n debyg, pryd y collwyd cannoedd o stoc a'r ffermwyr druan yn gorfod mynd trwy ryferthwy'r stormydd i chwilio a thyrchu am ddefaid yng nghanol lluwchfeydd milain ar y mannau anghysbell - roedd bywyd dyn ac anifail yn y fantol ond roedd yn rheidrwydd ar bob bugail gwerth ei halen i 'fentro' i'r dymestl.

Dyma'r flwyddyn hefyd pan roddodd Mam enedigaeth i Olwen, fy chwaer - yn llofft y tŷ wrth gwrs pan nad oedd modd ei chludo i'r ysbyty yn Nolgellau. Clywais sôn hefyd am lif mawr 'Cwm Ffynnon' yn 1781 pan sgubwyd pob pont ond un yn Llanuwchllyn gan lifeiriant o ddŵr. Dygwyd bywyd un wraig a llawer o anifeiliaid ynghyd ag eiddo'r ffermdai.

Dw i ddim yn cofio adegau mor ddrwg â hynny fy hun ond yn sicir mae rhyw ddigwyddiadau plentyn yn dal yn fyw yn y cof. Peth digon cyffredin oedd gweld afon wedi gorlifo'i glannau i ganol y caeau - ofni mynd allan o'r tŷ rhag ofn i mi foddi wrth edrych arni! Rhyfeddu a thosturio dros y defaid wedi'u hynysu ar lain o dir yng nghanol y dŵr a meddwl tybed faint o bysgod fydde ar y cae ar ôl i'r storm ostegu.

Peth cyffredin iawn oedd methu mynd i'r ysgol oherwydd eira - a chan mai o'r cwm hwn y deuai'r ddau dacsi roedd dros hanner y plant yn absennol. Cofiaf gerdded lawr i'r pentre un gaeaf - pedair milltir trwy luwchfeydd hyd at fy nghanol - i nôl 'neges' neu'r siopa i Mam a chymdogion. Baglu dros y ffens a'r cloddiau gan nad oedd sôn am y ffordd; y Jac Codi Baw a'r dynion cownsil mewn trafferth yn turio i wneud llwybr; ninne'n trio'n gore glas i ddilyn y llwybr defaid i gael arweiniaid i'r gwaelodion. Cofio mynd ar fy mhen i ffos o eira a Saeson mewn tŷ ha (arall) yn gofyn a oeddwn yn iawn - finne'n ateb yn fy Saesneg bratiog, yn rowlio chwerthin ar y ddaear, 'Yes, but I've fallen in the dutch' yn lle 'in the ditch'. Picio i'r dafarn leol i gnesu wrth y tân cyn cychwyn yn ôl yn lluddedig yn cario llaeth a bara i bobol y fro.

Stopio ar y ffordd i sglefrio ar rew caled yr afon a chael amal i 'godwm' wrth i'r rhew dorri odanom - gyda llaw, gall hyn fod yn beryg ar afon ddofn neu lyn - mae sôn fod mab Ffynnon Gower, ger y Bala wedi boddi mewn ffynnon oer pan rewodd Llyn Tegid ar ei hyd.

Yna cyrraedd adre a mynd i sleidio ar fag Rumavite - bwyd defaid - i lawr y llechwedd - dipyn mwy anturus na'r offer modern 'ma'r oes hon! Roedd bywyd yn gallu bod mor rhamantus mewn eira hyd yn oed - mi fyse pobl y trefi mawrion yn gwaredu a rhyfeddu at drwch y lluwchfeydd oedd cyplau'n arfer caru ynddo ers talwm - ac yn dal wrthi, mae'n siwr - roedd y stêm a'r ager y tu mewn i'r ceir yn well na'r un anti-freeze y gwn i amdano!! Dalied yr eira i ddisgyn a'r tywydd i gymryd ei gwrs - hebddo, fydde bywyd cefn gwlad ddim 'run fath - ond yn gymhedrol wrth gwrs, yn lle bo'r anifail a'r bugail yn dioddef.

# Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu Mr. William Lotwick, y plant a'r wyrion ar eu profedigaeth sydyn o golli Olwen, priod, mam a nain annwyl iddynt.

Carai'r Dinesydd ddiolch i'r Swyddfa Gymreig am eu grant hael tuag at gyhoeddi'r Dinesydd.

Dylid anfon deunydd Rhifyn Ebrill at Y Golygydd, Coed y Pry, 3 Llandennis Avenue, Cyncoed, erbyn Mawrth 20fed.

NEUADD DEWI SANT

NOS SUL, MAWRTH 13, 7.30

CERDDORIAETH Y PASG

gan

J. S. BACH

COR POLIFFONIG CAERDYDD A CHERDDORFA


Arweinydd: Richard Elfyn Jones

Feiolin: John Stein

Organ: Michael Griffiths

Cytganau o Ddioddefaint St. Matthew a St. Ioan.
Yr Offeren yn B Leiaf. Cantata Rhif 4.
Consierto yn A Leiaf i feiolin. Unawdau organ.

£3.50, £50, £7.00, £8.50 Tocynnau o'r Neuadd



THEATRIG

CANOLFAN CHAPTER CAERDYDD
(0222) 396061
MAWRTH 18 - 19

Y TŴR
gan Gwenlyn Parry

GWERSI FFRANGEG TRWY GYFRWNG

Y GYMRAEG

Dechreuwyr hyd at Lefel 'A'

Lowri Kemp, B.A. Anrh.
(Aberystwyth)
51, Cherry Orchard Rd.,
Llysfaen,
CAERDYDD.
Ffon: Caerdydd 764887

Y GYMDEITHAS LYFRYDDOL

Cafwyd cyfarfod hynod ddiddorol yn y gymdeithas lfryddol nos Wener olaf Chwefror. Y testun oedd G J Williams a'i lyfrgell, testun a ddaeth yn anghyffredin o fyw trwy draethu meistrolgar Mr Aneirin Lewis. Roedd llawer o'r gynulleidfa'n adnabod y gwrthrych yn dda ac yn mwynhau cerdded ar lwybrau atgofion ond roedd eraill (fel gohebydd y Dinesydd) yn gwybod y nesaf peth i ddim amdano fel person a hyfrydwch pur oedd clywed, ie a 'gweld' y gŵr mawr hwn yn tyfu'n fyw o flaen ein llygaid. Dywedodd y Dr Thomas Parry rai blynyddoedd yn ôl mai G J Williams oedd un o'r ysgolheigion mwyaf a welodd Cymru erioed. Roedd llawer yn y cwrdd fyddai'n cytuno ag ef, ond y noson honno cawsom olwg ar sawl agwedd arall ar ei fywyd. Mae'n dda cael sgwrs neu ddarlith fel hon o dro i dro inni gael gwybod mwy am ein gwŷr enwog.

Mae'n ddiddorol nodi iddo ef mewn darlith ar y wasg Gymraeg, darlith a gyhoeddwyd yn gynnar yn y saithdegau, awgrymu mai un ffordd o achub yr iaith fyddai cychwyn nifer mawr o bapurau ardal. Roedd hyn beth amser cyn i'r rhifyn cyntaf o'r Dinesydd ymddangos. Byddai'n ddiddorol gwybod a ddarllenodd arloeswyr y fenter yng Nghaerdydd ei eiriau proffwydol ef cyn cymryd y camau cyntaf.

Cyhoeddir y Dinesydd gyda chymorth ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru.

# Anesmwythyd yn y Gwynt




Ym mis Tachwedd 1987 dechreuodd rhai o ddisgyblion y chweched dosbarth, o dan hyfforddiant yr Adran Gymraeg o Weithdy fideo Chapter, ar eu tasg i gynhyrchu fideo yn y Gymraeg. Eu testun oedd datblygiadau'r dociau yng Nghaerdydd. Bu pawb wrthi'n ddygn cyn yr wyl yn ymbaratoi Dechreuodd y ffilmio ar y pedwaredd ar ddeg o Ragfyr, a buom yn nociau Caerdydd trwy gydol yr wythnos. Yna daeth y gwaith blinedig, ond eto angenrheidiol, sef y logio. Wedi'r logio, daeth y golygu a oedd hyd yn oed yn fwy blinedig, ar rhai! Er yr holl flino, credaf i bawb fod yn fwy na bodlon ar y cynhyrch olaf.

Yn bersonol, credaf i bob un ohonom* Aron, Owen, Simon, Claire, Lowri, Angharad a ninnau, gael profiad anhygoel wrth weld fideo yn cael ei gynhyrchu o'r cychwyn cyntaf. Tybiaf fy mod yn siarad ar ran y criw pan ddywedaf ein bod e wedi gwerthfawrogi'r cyfle o weld ein syniadau ni o'r dociau yn cael eu datblygu i fod yn rhywbeth gweledol a byw ar sgrin deledu. Credaf fod hyn yn hynod o bwysig, oherwydd yn anaml iawn yr ydym ni, fel pobl ifanc, yn cael y cyfle i ddatgan ein barn i'r byd a'r betws. Hefyd carem ddweud ein bod wedi mwynhau ein hunain, er yr holl waith caled, a'n bod wedi teimlo rhyw undod anhygoel o weithio fel criw.

HELEDD WILLIAMS.

# Y CROESAIR – Ap Lewsyn    RHIF 79



**Ar Draws:**
1. Tuedd i roi dau dderyn i or-gyffwrdd (6)
4. Ni ches gar er imi weiddi fod y rhannau i gyd yno gennyf (8)
10. Fe eir a'r dodrefn, yn gyfreithlon, i glirio'r ddyled (9)
11. Mae lluoedd felly ymhob cenedl (5)
12. Ai Ba[illegible]r yn y Celfyddydau yw? - yn enwedig yn y gelfyddyd o osgoi cael ei ddal (3,4)
13. Ffa Curwen (7)
14. Achos i Nero grynu (5)
15. Gwelir dim rhwng y gwaith a bos bach y papur - yn ffurfiol felly (8)
18. Mae'n werth dwyn ar gof fod un o Gaernarfon(sic) yn gadael bwlch ar ei ôl (8)
20. Dyma beth 'smala - fe dyngodd Joni Morgan na siafe fyth mo'i farf yn lân nes ennill hwn (5)
23. SN 2716 yw cyfeirnod y lle (7)
25. Hoff ddyfais y croeseiriwr i beri dryswch (7)
26. Cadwyn hir yn ymestyn o Golombia i Tierra del Fuago (5)
27. Wrth drefnu cân i Nesta, rhoddaist bwyslais arbennig ar rai nodau (9)
28. Anfadwaith direidus (8)
29. Ymarweddiad dyn, wedi colli ei ben, wrth iddo 'fynd o'r tu arall heibio' (6)

**I Lawr:**
1. Purodd (8)
2. Rhoddir gorffennedd o dderw ffug ar bren rhatach (7)
3. Ffrwynai ei hun pan welai ei bod yn bosib cael y tai am lai (9)
5. Llwyddodd Twm i gyrraedd y ne' am fod y peth hanfodol ymhlyg ynddo (8,1,5)
6. Lle i gael pedol arian, o leiaf (5)
7. Cynnwrf am fwy o dai yn peri i rywun ddadebru (7)
8. Dweud 'Na'? (6)
9. Cwestiwn adnabyddus Ryan (3,4,2'1,4)
16. Hen gyflwr y mae dynion yn cael eu 'gwth'io iddo (9)
17. Pencampwr na chafodd ei le yn Y Geiriadur Mawr (8)
19. Dwy ferch wedi dychryn? (7)
21. Y gorfoli afieithus yn achosi dilyw (7)
22. Cod dy bais am ennyd (6)
24. Gair cryf o'r Saesneg (5)

**DATRYSIAD RHIF 78**

**Ar draws**
1. CAREDIGION; 6. EDAM; 9. YMADRODDANT; 10. AFAN; 12. TAFODIEITHOEDD; 15. GODDEFASAI; 17. YN SWP; 18. MOR UDD; 19. MEILLIONEN; 20. GAIR YN EI BRYD; 24. MUDO; 25. ADDEWID SICR; 26. IEUO; 27. PONT HAFREN

**I Lawr**
1. CWYS; 2. RWAN; 3. DARGANFYDDWR; 4. GUDDIO; 5. OCHNEIDIAI; 7. DIFLOESGNI; 8. MYNYDD EPYNT; 11. DIGYWILYDD-DRA; 13. IGAMOGAMAI; 14. ADDURNIADAU; 16. SYMLEIDDIO; 21. BRWNT; 22. SIAR; 23. DRIN.

---

**DEIL Y GOLYGYDD YR HAWL I GWTOGI'R DEUNYDD A DDERBYNIR I'R DINESYDD, NEU I BEIDIO Â CHYHOEDDI PAN FO GOFOD YN BRIN.**

Daeth chwe datrysiad cywir i law - A.R.R., Abertawe, B.T., Cyncoed, Huana Simpson, Llanisien, Sioned Penllyn, Y Drenewydd, Juli Paschalis, Llandaf a Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwysnewydd. Anfoner datrysiad y mis hwn at Y Golygydd. Yr enw a ddaeth allan o'r het - er nid oes gan Y Golygydd un - yr enw ddaeth allan o'r bowlen oedd Sioned Penllyn, Y Drenewydd!


YN EISIAU

ATHRAWES/CYNOTHWYWRAIG FEITHRIN
i Gylch Meithrin Treoda, Yr Eglwysnewydd ar ôl y Pasg neu' ym mis Medi '88.

Cysyllter â: Judith Bonello ar Gaerdydd 611595



YN EISIAU

GWIRFODDOLWYR CLUDO DEILLION

Mae Cynllun Transcall yn awyddus i gael gwifoddolwyr i gario pobl ddall sydd yn methu mynd i weithgareddau'r gymuned.

Os am fwy o fanylion cysyllter a Sefydliad y Deillion Caerdydd. Tel. 473573


## CYMDEITHAS GYMRAEG DINAS POWIS

Bron cyn i seiniau gogoneddus Carolau'r Nadolig ddistewi yn Eglwys Sant Pedr, roedd aelodau Cymdeithas Gymraeg Dinas Powis wrthi'n paratoi ar gyfer rhaglen y Flwyddyn Newydd. Daeth nifer dda o aelodau'r Gymdeithas ynghyd ar noson oer o Ionawr i chwarae ceilys (skittles). Fel arfer, roedd hi'n noson hwyliog dros ben. Cyn troi am adre profodd pawb o'r bwffet blasus. Daeth mis Chwefror mewn dim amser a chyfle i groesawu ein siaradwr gwadd sef Mr. Dafydd Wyn Meredith o HTV. Cafwyd anerchiad tu hwnt o ddifyr a phawb yn rholio chwerthin. Cyflwynwyd y siaradwr gan ein Cadeirydd, Mr. Peter Davies a diolchwyd iddo gan Mr. Peter Elias Jones.

Ar hyn o bryd mae 'na brysurdeb anarferol ymhlith aelodau'r Gymdeithas - anarferol gan fod sail gerddorol ac ymarferol i'r holl weithgaredd. Y bwriad yw ffurfio cor i gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghasnewydd. Cytunodd Alwena Harries i fod yn Arweinydd ac mae'r cor am gyfarfod bob nos Lun am 8 o'r gloch. Felly dewch yn llu i ymuno â ni! - cewch groeso arbennig yn enwedig os oes rhyw dipyn o 'safon' ar y llais ac ar y dealltwriaeth cerddorol!

Byddwn yn ymgynnull yng Nghlwb B.P. ar nos Fawrth - Mawrth y laf - i dalu gwrogaeth i'n nawddsant. Edrychwn ymlaen at gwmni ein gwestai Mrs Dilys Wyn Lloyd. Cewch hanes y noson arbennig hon yn y rhifyn nesaf o'r Dinesydd.